

SYMUD I FYNY…SYMUD YMLAEN!

Cefnogi'r cyfnod pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Uwchradd i ddisgyblion ag anhwylder yn y sbectrwm awtistaidd.

Medi 2009

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Rhagair

Nod y ddogfen hon yw cynnal a chefnogi disgybl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig sydd ar fin symud o addysg gynradd i uwchradd.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2006 yn rhoi dyletswydd gadarnhaol ar bob corff cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl. Mae gan bob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, a phob awdurdod lleol eu hunain, Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Golyga hynny, ynghyd â'u dyletswyddau presennol, y bydd rhaid i bob ysgol gymryd camau rhagweithiol i hyrwyddo cydraddoldeb anabledd i ddisgyblion, gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau i:

- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal
- Gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon
- Gael gwared ar aflonyddwch yn gysylltiedig ag anabledd
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- Annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- Cymryd camau i roi ystyriaeth i anableddau pobl, hyd yn oed pan mae hynny'n golygu triniaeth fwy ffafriol.

Dylid cynnwys y camau hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb yr Ysgol ar gyfer Pobl Anabl.

Cynnwys

Rhagair 3

Beth yw Pontio? 5

Rhedeg Grŵp Trosglwyddo 9

- Pam rhedeg grŵp trosglwyddo? 9
- Sut i redeg grŵp trosglwyddo? 9
- Beth ddylwn i ei wneud yn y sesiwn olaf? 9

Pontio - Rhestr Wirio Blwyddyn 5 11

Pontio - Rhestr Wirio Blwyddyn 6 12

Rhestr Wirio Blwyddyn 7 14

Cyfeiriadau 15

Atodiad A 16

- Enghraifft o broses bontio yn Nhorfaen 16
- Enghraifft o ysgol yn cefnogi'r broses bontio 17
- Paratoi gartref ar gyfer y broses bontio 18

Atodiad B 19

- Enghreifftiau o storïau cymdeithasol 19
  - Beth mae athro/athrawes yn ei wybod? 19
  - Amser Gwasanaeth – Sut ydw i'n gwybod pryd i siarad? 20

Atodiad C 21

- Cais i gynnwys Swyddog Cymorth ASD 21

Beth yw Pontio?

Gall pontio o un ysgol i un arall fod yn gyffrous a bygythiol i unrhyw ddisgybl. Mae newid amgylchedd, yn naearyddiaeth yr ysgol ac yn nifer y bobl oll yn creu eu heriau eu hunain. Mae hyn weithiau'n gallu arwain at gyfnod o "encilio" wrth i'r disgybl geisio ymdopi, ac mae hynny'n gallu effeithio lefelau presenoldeb. Er mwyn cynnal a chefnogi disgyblion ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig mae cynllunio effeithiol a chynllunio trosiannol cynnar yn hanfodol i'w helpu i wireddu eu potensial a chyflawni nodau personol.

Mae trosiant yn fater o symud o un peth i un arall. Fel arfer, mae disgyblion ag ASD yn cael anhawster gyda' fath newidiadau, gan na fyddent efallai'n gallu rhagweld sut brofiad fydd sefyllfaoedd o'r fath neu ymdopi â newid sydyn; o'r herwydd, mae paratoi yn arbennig o bwysig.

Dyma rhai agweddau y mae pobl ifanc ag ASD yn ei chael hi'n anodd ymdopi â hwy:

- Symud rhwng trefniadau gwahanol y cartref a bywyd ysgol
- Paratoi ar gyfer gwyliau, diwrnod gweithgareddau, taith ysgol, neu unrhyw newid i drefn arferol bywyd ysgol
- Gorfod gwisgo crys, tei, trwser ac esgidiau bob dydd
- Cael athro neu athrawes newydd
- Eistedd wrth ddesg wahanol
- Symud rhwng ystafelloedd dosbarth i newid pynciau e.e. mae symud rhwng mathemateg a Saesneg yn fodd o bontio
- Symud i ystafell ddosbarth ac athro neu athrawes newydd ym mis Medi
- Symud rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd
- Paratoi ar gyfer profiad gwaith
- Paratoi ar gyfer y dyfodol ac ar gyfer bywyd ar ôl yr ysgol uwchradd
- Paratoi i ddechrau mewn coleg ym mis Medi.

Mae'r holl ffactorau hyn (a rhai eraill mae'n siŵr) yn gallu effeithio ar brofiad disgybl yn yr ysgol. Bydd faint o baratoi a'r cymorth sydd ei angen ar gyfer pob un o'r agweddau hyn yn amrywio yn ôl anghenion a chryfderau unigol y disgybl.

Ond pan mae angen cymorth, po fwyaf o waith a wneir i baratoi, po fwyaf o obaith y bydd y broses bontio yn llwyddo.

Dylid mabwysiadu ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar anghenion y person fel mater o drefn wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau i bobl ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig. Mae hynny'n golygu gwrando ar y defnyddiwr a gofalu eu bod wastad ynghanol y cynllunio a'r cyflwyno; y mae hefyd yn golygu creu a chynnig gwasanaethau sy'n bodloni anghenion a dyheadau unigol pobl ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig – yn hytrach na chyfateb gwasanaethau yn ôl yr hyn sydd ar gael. Mae ffordd o weithio sy'n rhoi'r person yn gyntaf yn golygu fod rhaid i wasanaethau weithio gyda'i gilydd. Mae hefyd yn cynnig fframwaith ar gyfer cynnwys nid yn unig y person ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig ond hefyd eu teulu a chymorth ehangach. Mae gwybodaeth am y teulu a phobl arwyddocaol eraill (gan gynnwys eiriolwyr) yn gallu bod yn hynod o werthfawr wrth adeiladu darlun o'r gefnogaeth sydd ei hangen ar unigolyn i gyflawni eu dyheadau.

I bobl ifanc ag anableddau, mae gan y gwasanaethau cymdeithasol gyfrifoldeb hefyd i fod yn rhan o gynllunio'r cyfnod pontio os ydynt yn gwybod am y person ifanc. I bobl ifanc ag awtistiaeth gweithrediad uwch a Syndrom Asperger, efallai na fyddant mewn cysylltiad â gweithiwr cymdeithasol. Mae hynny'n gallu gwneud gwaith cynllunio aml-asiantaethol yn anodd, oherwydd na fuont efallai mewn cysylltiad hyd hynny mae'n bosib fod yna faterion adeg y broses bontio y mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol fynd i'r afael â hwy; e.e. cymorth gyda medrau cymdeithasol, byw bywyd annibynnol yn gysylltiedig â lleoliad addysgol ôl 16, neu'r angen i ystyried lleoliadau eraill.

Mae cynllunio'r cyfnod pontio yn fater o gynllunio cynnar ac effeithiol ar gyfer dyfodol person ifanc, er mwyn ystyried dewisiadau addas i sicrhau lleoliadau.

Pontio Cynradd – Uwchradd

Trwy gydol fy mywyd rydw i wedi cael stŵr gan wr athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd am fod yn rhyfedd, anodd, twp, gwan, anghofus, araf - mae'r rhestr yn ddiddiwedd.. Gyda'r athrawon iawn gall myfyriwr Asperger ffynnu … rydw i'n brawf o hynny. Iawn, efallai nad ydw i'r person mwyaf deallus yn y byd, ac nad oes gen i lawer o gymwysterau, ond fe ddechreuais i'r ysgol yn is na'r gwaelod. Rhoddodd yr athrawon hynny ysgol imi allu dringo trwy'r twll archwilio a chyrraedd y lefel gyfartalog … rydw i'n mawr obeithio nad fi yw'r unig fyfyriwr Asperger fu'n ffodus fel hyn - rydw i'n mawr, mawr obeithio hynny.

Nita Jackson (2002), 'Standing Down, Falling Up'.

I unrhyw ddisgybl sy'n mynd i ysgol newydd, gall y cyfnod pontio fod yn brofiad digon anodd. Mae hynny'n arbennig o wir pan mae'r disgybl yn amgylchedd clòs, cynhaliol yr ysgol gynradd, yn meddwl am y symud i'r ysgol uwchradd. Heb os, bydd canlyniadau pontio gwael yn effeithio nid yn unig ar yrfa ysgol y disgybl ond hefyd ar ganfyddiadau pobl eraill tuag at y disgybl hwnnw neu honno. Yn wir, mae anawsterau ymddygiad yn ddiweddarach yn eu bywydau allai fod wedi'u hachosi gan brofiad pontio gwael yn gallu cynnwys ymddieithrio o'r amgylchedd newydd. Mae llawer o resymau pam y gall y cyfnod pontio hwn fod yn heriol i'r disgybl ag ASD. Dyma ond ychydig ohonynt:

- **Daearyddiaeth yr Ysgol** – Dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas, ymdopi â'r amgylchedd, delio â thorfeydd mawr, swnllyd

- **Anhysbysrwydd** - mewn ysgolion cynradd mae'r mwyafrif o blant yn tyfu i fyny gyda'i gilydd ac yn deall a chaniatáu ar gyfer rhai mathau o ymddygiad, ond nid yw hynny o reidrwydd yn wir yn yr ysgol uwchradd

- **Teithio i'r ysgol ar fws** – gadael amser i gyrraedd y bws, ble i aros, amserau'r bws, beth sy'n digwydd os yw'r bws yn hwyr

- **Dilyn amserlen** – dyma un o'r rhannau mwyaf cymhleth o fywyd ysgol i ddod yn gyfarwydd ag ef. Yn yr ysgol gynradd mae'r plentyn yn cael ei dd/dysgu gan un athro neu athrawes yn yr un ystafell ddosbarth. Efallai y byddant yn dibynnu ar gymorth 1:1 i'w helpu gyda gwaith y dosbarth

- **Cyfrifoldeb ychwanegol** – trefnu eu hoffer a'u llyfrau eu hunain, ysgrifennu gwaith cartref i lawr, dod o hyd i'r ffordd i wersi mewn pryd

- **Trefniadau amser egwyl ac amser cinio a sut i ymdopi** - ble i chwarae, beth i'w chwarae, ble i gwrdd â ffrindiau, sut mae cyrraedd y dosbarth nesaf

- **Problemau cymdeithasol** – llawer mwy o ddisgyblion. Bod yr ieuengaf yn yr ysgol newydd, cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd cymdeithasol.

O gofio'r pethau hyn, mae angen meddwl am bontio yn BROSES yn hytrach nac yn DDIGWYDDIAD, y mae'n sicr angen iddi ddechrau pan mae disgybl ym Mlwyddyn 5 os nad ynghynt. Os ydym yn dechrau sôn am ddisgybl yn pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd tua diwedd Blwyddyn 6, mae hi'n rhy hwyr yn barod. Mae pontio'n effeithiol yn golygu gweithio mewn ffordd sy'n rhoi'r person gyntaf, ac mewn partneriaeth â'r disgybl, y teulu, gweithwyr proffesiynol allweddol a'r ddwy ysgol dan sylw.

Mae gennym arferion gwaith da eisoes yn Nhorfaen ar ffurf Grwpiau Trosglwyddo y mae enghreifftiau ohonynt wedi eu hamlygu yn Atodiad A.

Rhedeg Grŵp Trosglwyddo

Pam rhedeg grŵp trosglwyddo?

- Mae'n rhoi amser i'r disgybl feddwl ymlaen a pharatoi'u hunain ar gyfer newid
- Mae'n rhoi sefyllfa ddiogel i ddisgyblion siarad am eu gobeithion a'u hofnau
- Gall dawelu meddyliau rhieni plant bregus
- Gall leddfu ofnau disgybl yn yr ychydig wythnosau cyntaf yn yr ysgol uwchradd
- Gall godi ymwybyddiaeth staff mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Sut i redeg grŵp trosglwyddo?

- Bydd y prosiect yn gweithio orau yn ystod ail hanner tymor yr haf
- Mae pump neu chwe phlentyn ym mhob grŵp wpyn nifer da i weithio â nhw, a phob grŵp yn cynnwys plant sy'n trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd
- Siaradwch â **Phennaeth Blwyddyn Saith** a gofynnwch am; brosbectws cyfredol yr ysgol, manylion y wisg ysgol, copi o reolau'r ysgol, cynllunydd personol, map o'r ysgol, ffotograffau, enghreifftiau o amserlenni, ac ati
- Defnyddiwch lyfryn **'Fy Ysgol Newydd'** (ar gael gan EPS Torfaen) i drafod materion fel gwaith cartref, rheolau'r ysgol, amserau egwyl, gwneud ffrindiau ac ati dros nifer o sesiynau, gan ddibynnu ar alluoedd eich grŵp. Ceisiwch greu awyrgylch ddiogel sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion rannu.

Beth ddylwn i ei wneud yn y sesiwn olaf?

- Gwahodd Pennaeth Blwyddyn 7 i'r ysgol i siarad â'r grŵp?
  Neu efallai rai cyn ddisgyblion yr ysgol gynradd?
- Cyflwyno tystysgrifau a'i wneud yn ddathliad o gyflawniad ac o bethau i ddod
- Gofyn i'r disgyblion ydyn nhw'n gwybod beth sy'n digwydd nesaf. Rhoi unrhyw beth allai fod ei angen arnynt i droi ato dros wyliau'r haf i fynd ag ef adref
- Gwerthuso profiad y disgybl o'r grŵp, gan ddefnyddio holiadur neu ffordd arall o werthuso

Efallai y bydd rhai disgyblion angen awgrymiadau gweledol ychwanegol i'w helpu ymdopi gyda'r gyfres o ddigwyddiadau sy'n rhan o'r broses pontio. Gellir defnyddio Social Stories (Gray, 2000) i helpu'r plentyn ddysgu sut i ymdopi â sefyllfaoedd o'r fath. Mae'r strategaeth, a ysgrifennwyd ar gyfer y plentyn unigol, yn helpu esbonio'r sefyllfa gymdeithasol ac mae'n ceisio cyflwyno safbwynt eraill a'r hyn maen nhw'n ei ddisgwyl gan yr unigolyn. Ceir enghraifft o stori gymdeithasol yn Atodiad B.

Mae pasbortau cyfathrebu yn adnodd ychwanegol a defnyddiol ar gyfer cynnig trosolwg o gryfderau a gwendidau'r disgybl. Yn nhymor yr haf bydd y Swyddog Cynnal ASD yn gweithio gyda'r disgybl, y teulu a'r ysgol i lenwi'r llyfryn. Mae nifer o fformatau gwahanol y gellir eu defnyddio ond mae pob un yn unigol i'r disgybl. Mae'r disgybl yn cael ei annog i roi copi o'r wybodaeth hon i'w hathro neu athrawes dosbarth newydd yn ystod un o'u hymweliadau ym mis Gorffennaf.

Wrth i'r llywodraeth gynnig y cyfleoedd ar gyfer cynnwys mwy o blant ar y sbectrwm awtistig mewn ysgolion prif ffrwd (DfES, 2001; LICC, 2003) po gynharaf y bydd y broses yn cychwyn po fwyaf tebygol y bydd y trosiant yn llwyddiannus.

Er mwyn cefnogi'r broses bontio cafodd rhestr wirio ei pharatoi er mwyn cyflawni nifer o gamau allweddol yn ystod Blwyddyn 5 ac ymlaen i dymor yr hydref Blwyddyn 7. Mae'r rhain yn seiliedig ar arferion gwaith da ac argymhellion gan y Gymdeithas Awtistaidd Genedlaethol (2006).

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth mae croeso ichi gysylltu â Cheryl Deneen, Swyddog Cynnal Awtistiaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Nhorfaen, neu â'r Seicolegydd Addysg ar gyfer eich ysgol. Cynhwysir cais i gynnwys Swyddog Cymorth ASD yn yr atodiadau.

Pontio - Rhestr Wirio Blwyddyn 5

Tymor y Gwanwyn	Dyddiad cyflawni
SENCO i gysylltu ag asiantaethau gwahanol i drefnu asesiadau i fwydo i Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 5	
SENCO i drefnu dyddiad gydag asiantaethau i gynnal adolygiad yn Nhymor yr Haf	

Tymor yr Haf	Dyddiad cyflawni
SENCO/Cynorthwyydd Addysgu (CA) i gael barn disgyblion ar eu cynnydd ac unrhyw bryderon sydd ganddynt am y broses bontio	
SENCO i drefnu cyfarfod gyda rhieni i drafod dewis ysgolion	
Os yw'r disgybl yn gallu, gadael iddynt rannu barn am 5 – 10 munud ar ddechrau'r Adolygiad Blynyddol	
Yr ysgol i gynnal Adolygiad Blynyddol os oes gan blentyn ddatganiad; neu gyfarfod ysgol os yw plentyn ar y Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)	
Gwahodd SENCO o Ysgol Uwchradd i adolygiad / cyfarfod	
SENCO i asesu medrau annibynnol plentyn i'w hamlygu yn y Cynllun Addysg Unigol (CAU)	

Pontio - Rhestr Wirio Blwyddyn 6

Tymor Yr Hydref	Dyddiad cyflawni
SENCOs y ddwy ysgol i drafod trefnu ymweliad i rieni i fynd i weld y lleoliad uwchradd ar ddiwedd y dydd	
SENCO/CA/athro/athrawes dosbarth i gyfarfod rhieni i fynd dros y cynllun gweithredu i gynnal anghenion y plentyn	
Person penodedig i ofyn i'r disgybl wneud rhestr o 3 pheth maen nhw'n edrych ymlaen atynt a 3 maen nhw'n poeni amdanynt ynghylch wrth bontio (gellir mynd i'r afael â'r rhain ym Mlwyddyn 6)	
SENCO i esbonio disgwyliadau'r cyswllt cyntaf i bennaeth blwyddyn 7 a'r SENCO uwchradd	
Pennaeth Blwyddyn 7 a'r SENCO yn ymweld â'r disgybl ym Mlwyddyn 6	
SENCO Cynradd i drafod gyda'r SENCO Uwchradd yn dilyn yr ymweliad a chynnig adborth	
SENCO Cynradd i benderfynu ar hyfforddiant staff i gynnal y broses bontio e.e. rôl y CA yn ystod ymweliadau, athro/athrawes ar gyfer gweithgareddau pontio	
SENCO i restru'r dyddiadau allweddol: hyfforddiant staff / dyddiau hyfforddiant HMS / dyddiadau addas ar gyfer ymweliadau / cyfarfodydd/dyddiadau ar gyfer rhedeg grŵp trosglwyddo	

Tymor y Gwanwyn	Dyddiad cyflawni
SENCO Cynradd i wahodd yr holl asiantaethau perthnasol a'r SENCO Uwchradd i Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 6	
SENCO Cynradd i wahodd yr holl asiantaethau perthnasol a'r SENCO Uwchradd i Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 6	
Plentyn i gymryd ffotograffau o staff yr ysgol; cael map o'r adeilad gyda chymorth y CA	
Staff Uwchradd (SENCO a Phennaeth Blwyddyn 7) i ymweld â'r ysgol gynradd a rhoi enghreifftiau o amserlenni, cynlluniau ysgol a thrafod gwybodaeth ymsefydlu sy'n berthnasol i'r ysgol	

Tymor yr Haf	Dyddiad cyflawni
Swyddog Cymorth ASD, cynorthwyydd addysgu, athro/athrawes a'r SENCO i weithio gyda'r disgybl a'r teulu i ddatblygu eu pasbort cyfathrebu unigol	
Ysgol Uwchradd i ddarparu amserlen derfynol cyn dechrau gwyliau'r Haf	
Athro/Athrawes Gynradd i lenwi ffurflen crynodeb i fyfyrwyr a'i danfon at y SENCO Uwchradd ar ddiwedd y tymor	
Gofalu fod rhieni wedi cadarnhau trefniadau cludiant a bod y plentyn yn gwybod beth yw'r trefniadau hynny	
SENCO Uwchradd i ofalu fod y disgybl yn cyfarfod penaethiaid adrannau a'r athro/athrawes ddosbarth (os yw'n hysbys). Gall y disgybl roi eu pasbort cyfathrebu wedi'i lenwi i'w hathro/athrawes ddosbarth	
SENCOs i drafod er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o anghenion y disgybl a chyflwyno pecynnau hyfforddiant	
SENCOs Cynradd ac Uwchradd i baratoi cynlluniau ymddygiad, storïau, taflen wybodaeth yn barod ar gyfer mis Medi	
Staff Cynradd i gyflwyno newidiadau'n raddol – trafod y cyfnod pontio gyda'r disgybl	

Rhestr Wirio Blwyddyn 7

Tymor Yr Hydref	Dyddiad cyflawni
SENCO Uwchradd i ddod o hyd i 'hafan ddiogel' y gall y plentyn fynd iddo yn ystod cyfnodau anodd os oes angen.	
SENCO i sicrhau bod yr holl staff wedi cyfarfod y disgybl a bod ganddynt gopïau o'r wybodaeth berthnasol.	
SENCO/CA/athro/athrawes ddosbarth i ofalu fod y disgybl yn gyfarwydd â threfniadau ac ati, e.e. amserau cinio, gwasanaethau (defnyddiwch Storïau Cymdeithasol i roi cymorth os yn berthnasol).	
Athro/athrawes ddosbarth i ddod o hyd i ddisgyblion addas ar gyfer gwaith grŵp ymhob gwers.	
Pob athro/athrawes i gyflwyno strategaethau dysgu fydd yn galluogi'r disgybl i: Gymryd nodiadau Gwneud gwaith cartref Trefnu adnoddau Ymdopi â sefyllfaoedd anodd Gofyn am gymorth Deall a dilyn cyfarwyddiadau	
Monitro agos gan yr athro/athrawes ddosbarth, Pennaeth Blwyddyn, Cynorthwyydd Addysgu a'r SENCO ar gyfer y tymor cyntaf	
SENCO i ystyried sefydlu neu ddefnyddio system 'cyfaill' / cylch ffrindiau	
CA/SENCO i roi 'carden amser allan' i'r disgybl, ac esboniad clir o sut i'w ddefnyddio, os oes angen	
Athro/athrawes ddosbarth/CA/SENCO i ofalu bod y disgybl yn gwybod ymhle i aros am y bws	
Athro/athrawes ddosbarth i roi amserlen maint carden credyd (wedi'i lamineiddio) i'r disgybl i'w roi yn eu poced.	
Swyddog Cymorth ASD i gyfarfod y myfyriwr, yr ysgol i drafod hanner cyntaf y tymor a phryderon (os oes rhai)	
Athro/athrawes ddosbarth i gysylltu ag athrawon pwnc i drafod pryderon (os oes rhai)	
Y Pennaeth Blwyddyn i fod ar gael ar gyfer hanner cyntaf y tymor i roi sylw i bryderon rhieni (os oes rhai)	

Cyfeiriadau

DfES (2001) SEN Toolkit, Nottingham, DfES

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2006

Gray, C (2000) The New Social Story Book, Arlington TX: Future Horizons

Jackson, N. (2002) Standing Up Falling Down, Sage, Llundain.

Cymdeithas Awtistaidd Genedlaethol (2006) Inclusion in the Primary Classroom NAS

Cymdeithas Awtistaidd Genedlaethol (2006) Inclusion in the Secondary Classroom NAS

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003) Dogfen Ymgynghori ar Addysg Gynhwysol

Atodiad A

Enghraifft o broses bontio yn Nhorfaen

Pan gaeodd Ysgol Gynradd Trefddyn yn 2007 symudodd llawer o ddisgyblion i Ysgol Abersychan. Bu staff yn Ysgolion Trefddyn ac Abersychan yn cydweithio i gynnal a chefnogi disgyblion ag ASD wrth baratoi ar gyfer eu hysgol newydd yn y ffyrdd hyn:



Enghraifft o ysgol yn cefnogi'r broses bontio

Bu staff yn Ysgol Uwchradd Fairwater yn cynnal a chefnogi disgybl ag ASD fel y gallai ymuno â'r brif ffrwd ym Mlwyddyn 7 a phontio'n llwyddiannus o'r Cynradd i'r Uwchradd. Roedd hyn yn cynnwys asesu manwl a llawer iawn o waith partneriaeth gyda rhieni, yr ysgol gynradd a Seicolegwyr Addysg, er mwyn cytuno pecyn pontio i'r unigolyn.



Paratoi gartref ar gyfer y broses bontio

Dyma enghraifft o bontio llwyddiannus a elwodd o wybodaeth a dderbyniwyd gan y rhieni a roddodd gyfle iddynt gynnal a chefnogi eu plentyn gartref wrth baratoi ar gyfer symud o'r cynradd i'r uwchradd.



Atodiad B

Enghreifftiau o storïau cymdeithasol

Beth mae athro/athrawes yn ei wybod?

- Mae fy athro/athrawes yn adnabod plant yn iawn – fel fi!
- Mae fy athro/athrawes yn gwybod sut i arwain,
- Mae fy athro/athrawes yn gwybod popeth am 'beth sy'n dod nesaf ….'
- Mae fy athro/athrawes yn gwybod sut i ddarllen.
- Mae fy athro/athrawes yn gwybod popeth am liwiau a siapiau,
- Mae fy athro/athrawes yn gwybod rhifau hefyd.
- Mae'n bwysig gwrando pan mae fy athro/athrawes yn siarad,
- Oherwydd mae fy athro/athrawes yn gwybod beth fyddwn ni'n wneud.

Carol Gray (2002) My Social Stories Book, Jessica Kingsley Publishers
ISBN 1 84310 716 3

Amser Gwasanaeth – Sut ydw i'n gwybod pryd i siarad?

- Yn y gwasanaeth, mae Mrs Smith a Mrs Sells yn sefyll yn y blaen ac yn siarad â'r plant i gyd.
- Mae'n gwrtais gwrando ar bopeth maen nhw'n ddweud.
- Nid yw'n gwrtais torri ar draws trwy weiddi allan, neu siarad pan maen nhw'n siarad.
- Pan mae Mrs Smith neu Mr Snells yn siarad, byddant yn dal llaw gardfwrdd goch i fyny. Pan maen nhw'n dal y llaw goch i fyny, mae'n gyfle iddyn nhw a neb arall siarad.
- Pan maen nhw'n dal llaw werdd i fyny, mae hynny'n golygu fod pobl eraill yn cael cyfle i siarad.
- Gall unrhyw blentyn neu oedolyn siarad pan mae'r llaw werdd yn cael ei dal i fyny, ar yr amod eu bod yn dweud eu henw.
- Mae Mrs Smith a Mrs Sells yn falch pan mae plant yn cymryd troeon i siarad.
- Pan mae llawer o bobl yn y neuadd, mae cymryd troeon yn bwysig.
- Nid yw Mrs Smith a Mrs Sells yn gallu clywed beth mae pobl yn ei ddweud os nad yw'r plant yn cymryd troeon.
- Byddaf yn ceisio gwrando'n ofalus yn y gwasanaeth.
- Byddaf yn ceisio cadw'n dawel pan mae'r llaw goch yn cael ei dal i fyny.
- Byddaf yn ceisio cofio dal fy llaw i fyny i weld os caf gyfle i siarad pan mae'r llaw werdd i fyny.

Carol Smith (2003) Writing and Developing Social Stories, Speech Mark Publishing Ltd.
ISBN 0 86388 432 6.

Atodiad C

Cais i gynnwys Swyddog Cymorth ASD

Dylai pob Swyddog Cymorth lenwi'r ffurflen isod wrth iddynt asesu plentyn. Mae ar gael mewn fformat electronig i'w lawr lwytho a'i hargraffu os oes angen..

TORFAEN COUNTY BOROUGH / BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

ASD Children and Young People Support

Education, TCBC, Civic Centre, Pontypool, NP4 6YB
Tel: 01495 766967 Fax: 01495 766904

Personal Details Form

To be completed before involvememt of the ASD Support Officer with young people and their families

Name of Young Person: .....

Name of Early Years/School Provision .....

Home Address: ..... Looked After Child? Y ☐ N ☐

..... Is the child already known to the LEA? Y ☐ N ☐

.....

Date of Birth ☐☐☐ Gender M ☐ F ☐ In Full Time Education: Y ☐ N ☐

Diagnosis: ..... Date of Diagnosis: ☐☐☐

Names of other professionals/support agencies involved:

What do you think are the key needs of this child and family?

Please ask parents/carers to complete the following box, with your assistance. This is necessary before involvement from the ASD Support Officer can begin.

Parent or Carer Permision for ASD Support Officer Involvement.

Members of the relevant profession have discussed the involvement of the ASD Support Officer with me.
I give permission for an ASD Support Officer consultation about my child ..... *(Name) and for the ASD Support Officer to see my child in class or individually.*

Names and titles of parent(s)/carer(s): .....

.....

Contact telephone number(s): .....

My child's main language at home is: .....

My child's ethnicity is: .....

Any additional information or views that you wish to be recorded:

.....

.....

.....

.....

Parent/Carer Signature(s): .....

Date: .....

Name of Individual completing Personal Details Form: .....

Contact details: .....

.....

Date: .....

TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar lein, ewch i:

www.torfaen.gov.uk/education

Dyluniwyd gan

© 2009 Dylunio a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Tachwedd 2009